**Y PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD AC ALLANOL EUR-02-02**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 20 Mawrth 2002 |
| **Amser:** | 9.00 |
| **Lleoliad:** | Ystafell bwyllgora 3&4 |
| **Teitl:** | Papur Gwyn y Comisiwn Ewropeaidd ar Lywodraethu Ewropeaidd: Amlinelliad o ymateb drafft Prif Weinidog Llywodraeth Cynulliad Cymru |

**2il DDRAFFT**

Rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Llywodraethu Ewropeaidd

1.1 Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol a'r Llywodraeth rolau pwysig iawn i'w chwarae fel **cyfranogwyr** yn yr Undeb Ewropeaidd. Mae nifer fawr o'r swyddogaethau sydd wedi eu datganoli i Gynulliad Cymru yn rhan o gymhwysedd Ewropeaidd. Mae gennym gyfrifoldeb uniongyrchol dros reoli rhaglenni'r UE yng Nghymru, y mwyaf ohonynt yw'r Cronfeydd Strwythurol a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin. Gan weithredu y tu fewn i drefniadau cyfansoddiadol y DU mae Cynulliad Cymru yn gweithio er mwyn chwarae rôl llawn ar lefel Ewropeaidd.

1.2 Mae'n perthynas gyda llywodraeth y DU fel ein Haelod-Wladwriaeth yn hanfodol. O ganlyniad i'r cydweithio hwn mae gennym swyddfa Cynulliad Cymru barhaol ym Mrwsel, sydd â statws diplomyddol, ac mae'n gweithio'n agos gyda Chynrychiolaeth Barhaol y DU. Yr ydym yn gweithio gyda'n gilydd i gynrychioli safbwyntiau Cymru yn y broses o wneud polisïau tra'n sicrhau bod sefyllfa gyffredinol y DU yn parhau yn gydlynol. Mae'r dull hwn o weithredu yn cynnwys Gweinidogion Cynulliad Cymru yn mynychu cyfarfodydd Cyngor y Gweinidogion lle bo hynny'n addas fel rhan o ddirprwyaeth y DU.

1.3 Mae Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu darparu canllawiau gwleidyddol strategol ar faterion Ewropeaidd ac ystyried yn fanwl y materion hynny sy'n effeithio fwyaf ar Gymru.

1.4 Mae gan Cymru bum ASE'au yn y Senedd Ewropeaidd ac mae gennym gynrychiolaeth hefyd ar Bwyllgor y Rhanbarthau a'r Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol. Nod Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol y Cynulliad yw cynnal y trafodaethau gyda holl gynrychiolwyr Cymru yn sefydliadau'r UE.

1.5 Mae'r Cynulliad yn cydweithio mewn rhwydweithiau gyda rhanbarthau Ewropeaidd eraill. Yr ydym yn aelodau gweithredol o'r Rhanbarthau gyda Phwerau Deddfwriaethol a'r CPMR. Yr ydym hefyd yn cydweithio'n anffurfiol gyda'r rhanbarthau eraill ar gyfnewidfeydd polisi mewn ystod o feysydd pwnc.

1.6 Mae'r ddau awdurdod lleol ar hugain yng Nghymru yn gyfrifol am ddatblygu a chyflawni nifer o raglenni'r DU yn y maes. Maent hefyd yn gweithredu darnau mawr o ddeddfwriaeth y DU.

1.7 Mae gan y gymdeithas sifil, gan gynnwys y sector gwirfoddol, ran hanfodol i'w chwarae wrth drosi a gweithredu cynigion y UE.

1.8 Mae Cynulliad Cymru yn gweld llywodraeth leol, y sector busnes, y sector gwirfoddol a'r gymdeithas sifil fel ei bartneriaid yn yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r Cynulliad yn gweithio'n gynhwysol gydag eraill mewn ystod o feysydd i ddatblygu agwedd "Cymru gyfan" i bolisïau'r UE.

<u>Ystyriaeth o'r Papur Gwyn</u>

2.1 Yr ydym yn credu y bydd y Papur Gwyn yn gwneud cyfraniad sylweddol i lywodraethu'r UE yn y dyfodol. Felly, yr ydym wedi gwneud pob ymgais i sicrhau bod ei gynnwys wedi ei ddosbarthu'n eang a bod pob sector o'r gymdeithas yng Nghymru wedi cael cyfle i'w ystyried.

2.2 Mae Aelodau o Bwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol Cynulliad Cymru wedi ystyried cynnwys y Papur Gwyn ar nifer o achlysuron ers ei gyhoeddi yn 2001.

2.3 Ar **5 Rhagfyr** 2001 gwnaeth y Pwyllgor gyfarfod ym Mrwsel a thrafodwyd y Papur Gwyn gyda Phennaeth Tîm Llywodraethu'r Comisiwn ac ASE'au Cymru.

2.4 Ar **17 Ionawr** 2002 cynhaliodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y Papur Gwyn. Dyma'r tro cyntaf yn hanes y Cynulliad y dadleuwyd Papur Gwyn y Comisiwn yng nghyfarfod llawn Cynulliad Cymru.

2.5 Gwnaeth y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol wahodd cyflwyniadau ysgrifenedig oddi wrth y gymdeithas sifil ac ystyriwyd y rhain mewn cyfarfod o'r Pwyllgor ar **13 Chwefror** 2002 ynghyd ag ymateb drafft cychwynnol oddi wrth Brif Weinidog Cymru.

2.6 Dilynwyd dadl y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn gan **Fforwm Ewropeaidd Cymru** ar Lywodraethu a gynhaliwyd yn Llandudno, Gogledd Cymru ar **15 Chwefror** 2002. Trefnwyd hwn ar y cyd rhwng Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a daeth ynghyd â chynrychiolaeth wleidyddol Cymru a'r gymdeithas sifil ehangach ledled y wlad. Tynnwyd y gynrychiolaeth wleidyddol o'r Cynulliad, o Senedd y DU, y Senedd Ewropeaidd a llywodraeth leol yng Nghymru. Cynrychiolwyd y gymdeithas sifil gan y sectorau gwirfoddol a NGO.

2.7 Credwn fod y dull cynhywsfawr hwn o ystyried y Papur Gwyn yn unigryw. Mae'r sylwadau ar gynnwys y Papur Gwyn, a nodwyd isod, yn seiliedig i raddau helaeth ar yr ymgynghori a'r ddadl eang a gafwyd yng Nghymru.

Y Papur Gwyn

3.1 Mewn perthynas â chynnwys y Papur Gwyn ei hun, mae Llywodraeth y Cynulliad yn **croesawu** ysbryd menter y Comisiwn i archwilio llywodraethu yn yr Undeb Ewropeaidd. Cytunwn na fydd y newidiadau'n bosib wrth i'r Comisiwn weithio ar ei ben ei hun ac mae'r Cynulliad yn fodlon gweithio mewn partneriaeth er mwyn gyrru ymlaen â'r gwaith hwn.

3.2 Mae **pum egwyddor** llywodraethu da - bod yn agored, cyfranogiad, atebolrwydd, effeithiolrwydd a chydlyniad - yn gadarn ac yn adlewyrchu agwedd y Llywodraeth at lywodraethu yng Nghymru.

3.3 Mae bod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd yn **fuddiol** iawn i Gymru ac mae ganddo effaith ymarferol ar ein bywydau. Mae gan y gwahanol adrannau o'r Undeb Ewropeaidd - ei aelodau a'i sefydliadau - rôl i'w chwarae wrth **gyfathrebu** gyda'n cyhoedd ynghylch y penderfyniadau a gymerwyd gan yr UE a'u heffaith ymarferol. Mae **cyfranogiad** yn hanfodol os yw'r UE yn mynd i gysylltu â bywydau pobl ac mae **ymgynghori cynnar** yng nghanol yr egwyddor hon. Mae'n bwysig bod pobl yn deall pwy sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau a phaham bod y penderfyniadau hynny'n cael eu gwneud.

3.4 **Gwell cyfranogiad** - yr ydym yn annog y Comisiwn i ystyried ymhellach y ffordd y mae'n cyfathrebu gydag awdurdodau lleol a rhanbarthol. Yn hyn o beth mae'r sefyllfa gyfredol yn gadarnhaol mewn rhai ffyrdd ond nid yw'n systematig. Gellir gwneud mwy o ddefnydd o'r rhwydwaith o swyddfeydd rhanbarthol sydd ym Mrwsel fel ffrwd wybodaeth ac ymgynghori.

3.5 Mae'r Rhyngrwyd a gwefannau'r UE wedi bod yn gymorth wrth geisio gwneud yr wybodaeth o fewn cyrraedd ac yr ydym yn cefnogi uchelgais y Comisiwn i gymryd mantais lawn o'r dechnoleg newydd. Yr ydym yn annog y Pwyllgor i bwysleisio polisi o hygyrchedd ymysg ei staff ac ymwybyddiaeth o'r gwerth i ymateb yn gadarnhaol i ymholiadau cyhoeddus. Mae angen i'r Comisiwn a'i bartneriaid ystyried ffyrdd o wella mynediad y cyhoedd at wybodaeth ynghylch yr hyn y mae'r Undeb Ewropeaidd yn ei wneud a sut y mae'n mynd ati i'w wneud.

3.6 Dylai iaith ac arddull y **cyfathrebu** fod yn gwbl glir a syml. Mae rhai o'r dogfennau yn anodd iawn i'w deall a hynny'n ddiangen. Os nad yw darllenydd yn medru deall testun, yna fel arfer ar y testun y mae'r bai, ac nid ar y darllenydd. A yw'r Comisiwn yn cyflogi digon o bobl cymwys i wneud y gwaith hwn (sef pobl sydd â sgiliau golygu)?

3.7 Mae gwefannau'r Comisiwn wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r wybodaeth sydd ar gael ym mhob rhan o'r Undeb. Mae TG yn cynnig y cyfle gorau i ehangu gwaith yr UE o'r broses ddiplomataidd i'r broses ddemocratig. Yr ydym yn annog y Comisiwn - a sefydliadau eraill - i fanteisio ar y potensial a gynigir gan TG fel cyfrwng cyfathrebu.

3.8 Bydd ymgynghori ehangach a chynharach yn ei dro yn helpu i gynhyrchu **deddfwriaeth well**. Dylid ei gadw mor syml â phosib a chaniatáu digon o hyblygrwydd er mwyn rhoi ystyriaeth i amgylchiadau lleol.

3.9 **"Cytundebau Tridarn"** - mae hwn yn syniad diddorol iawn. Mae'r egwyddor tridarn yn bodoli eisoes mewn perthynas â rhaglenni'r Comisiwn. Er enghraifft mae'r Cynlluniau Datblygu Gwledig a rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol, mewn gwirionedd yn gytundebau tridarn (hynny yw gweithredu a gyflwynwyd ar lefel ranbarthol yn seiliedig ar drafodaethau gyda'r Comisiwn ac o fewn fframwaith polisi a chyllido Aelod-Wladwriaeth).

3.10 Byddai mwy o amrywiaeth rhanbarthol a lleol a mewnbwn at bolisi drwy enghraifft **tridarn** yn cael ei groesawu mewn egwyddor a byddai'n gymorth i wneud yr Undeb yn fwy ymatebol a pherthnasol. Dylai unrhyw gynlluniau ganiatáu elfen sylweddol o "rhanbartholi" a dylent fod yn "ysgafn": byddai agwedd fiwrocrataidd yn eu gwneud yn annymunol ar lefel ranbarthol, lle mae adnoddau yn aml yn brin.

3.11 Mae gan y Cynulliad ddiddordeb yn yr egwyddor o gytundebau tridarn ac mae'n awyddus i weithio gyda'r Comisiwn i archwilio'u potensial yn fanylach.

3.12 Mae gan **Bwyllgor y Rhanbarthau** rôl bwysig wrth adlewyrchu safbwynt rhanbarthol ar gynigion y Comisiwn. Yr ydym yn cefnogi'r cynllun i ymgynghori ag ef yn gynharach cyn i'r cynigion gael eu cyhoeddi.

3.13 **Ymgynghori** yw'r mecanwaith canolog ar gyfer sicrhau bod lleisiau'r partneriaid sydd â diddordeb yn cael eu clywed wrth lunio polisi. Mae rhai ymgynghoriadau'r Comisiwn yn eang iawn ac yn enghreifftiol - megis yr un sy'n sail i'r ymarfer llywodraethu hwn - ond ar adegau maent yn ad hoc ac yn fympwyol. I'r perwyl hwn yr ydym yn cefnogi'n gryf y syniad o God Ymarfer sy'n nodi'r safonau sylfaenol y mae'n ofynnol i'r Comisiwn i'w dilyn yn eu gweithdrefnau ymgynghori. Dylai hyn gynnwys cynnal a chadw cofrestr ganolog o sefydliadau y dylid ymgynghori â hwy yn rheolaidd ynghylch mentrau.

3.14 **Deddfwriaeth Well** - Yr ydym yn credu mewn symlrwydd. Yr unig adeg y dylid cyflwyno deddfwriaeth yw pan fod ei gwir angen amdani. Cyn y cynigir deddfwriaeth, dylid rhoi ystyriaeth i'r gost ar yr awdurdodau sy'n gyfrifol am gyflawni (sef, Dadansoddi Buddiant Cost). Dylid ei gadw mor syml â phosibl. Dylid symleiddio deddfwriaeth bresennol lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Gorau po leiaf. Dylid ystyried dulliau amgenach na rheoleiddio lle bynnag y mae hynny'n bosibl. Mae'r dulliau amgenach na rheoleiddio yn cynnwys codau ymarfer, adolygiad cyfoedion, meincnodi, atebion rhwydweithiol, cyfarwyddebau fframwaith a dull cydlynu agored.

Casgliad

4.1 Bydd rhai o'r materion a godwyd yn y Papur Gwyn yn cael eu trosglwyddo drwy'r ddadl ar **Ddyfodol Ewrop**. Yn enwedig, gobeithiwn weld pwyslais newydd ar ddatganoli, cydnabod pwysigrwydd gwneud penderfyniadau ar y lefel sydd agosaf i'r bobl yr effeithir arnynt gan y penderfyniadau. Yr ydym hefyd eisiau gweld mwy o eglurdeb ynghylch rhannu galluoedd yn y UE (sef pwy sy'n gwneud beth). Ond yr ydym yn annog y Comisiwn i ddefnyddio'r ymarfer Llywodraethu cyfredol hwn fel dull i weld cynnydd cynnar yn y ffordd y mae'r gwaith yn cael ei drin. Dyma'n blaenoriaethau ar gyfer canlyniadau ymarferol:

- Cod Ymarfer ar Ymgynghori
- Cyfathrebu gwell drwy wefannau a defnyddio iaith symlach
- Gwell rheoleiddio
- Yn awyddus i archwilio cyfleoedd ymarferol ar gyfer cytundebau tridarn.

Prif Weinidog Cymru
Llywodraeth Cynulliad Cymru